# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/04/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Carys Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Rhian Sanson |
| Alaw Llewelyn Roberts | Gito Williams | Gwynfor Jones | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Catrin Roberts, Gareth Jones, Dafydd Dobson, Rhys Llewelyn, Caren Jones a Janice Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Clerc – Eitem 4 – Codi oriau gweithio'r Clerc.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 21/03/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Codi oriau gweithio'r Clerc**
     Mae'r Clerc yn ei chael yn anodd i wneud yr holl waith o fewn yr oriau sydd wedi eu penodi iddi ac mae yna amryw o ddyletswyddau ychwanegol wedi dod i rym yn ddiweddar sydd yn ei gwneud yn amhosibl iddi gyflawnyi y gwaith o hyn allan heb i'r oriau gael eu codi.
     Penderfyniad: codi oriau'r Clerc o 17 awr yr wythnos i 20 awr yr wythnos a'r cyflog i gael ei newid i adlewyrchu'r cynnydd yn yr oriau.
     Cynnig Arfon Hughes  Eilio: Gruffydd Williams
   - **Maes Parcio Ffordd Dewi Sant –** Arfon Hughes
     Mae pryder ynglŷn â diffyg manau parcio yn Nefyn ac mae angen gwneud rhywbeth ynglŷn â'r mater cyn i'r tymor ymwelwyr ddechrau. Nid oes llawer o le i barcio ar y Lôn Gam ar gyfer teuluoedd yn ymweld a'r traeth am y diwrnod ac ar ôl y Lôn Gam mae ceir yn parcio ar hyd Rhodfa'r Môr sydd eto ddim yn ddelfrydol a'r unig opsiwn wedyn ydi'r maes parcio ar Ffordd Dewi Sant. Mae mwy a mwy o'r maes parcio yma yn cael ei gymeryd trosodd gan offer y pysgotwyr lleol ac mae angen cael gwell trefn yno fel bod mwy o le i barcio ar gael.
     Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt gael gair hefo'r pysgotwyr i'w atgoffa o'r gytundeb sydd rhyngddynt â Cyngor Gwynedd ers tua 7 mlynedd bellach a beth yw amodau'r gytundeb.
   - **Cylch Meithrin Morfa Nefyn –** Is-gadeirydd
     Mae Cylch Meithrin Morfa Nefyn yn dod i ben mis Gorffennaf ac mae rhywun wedi dangos diddordeb mewn ail gychwyn y Cylch ar ôl y gwyliau ac efallai ymestyn yr oriau agor o 11.30yb i 1.00yp neu 3.00yp sydd yn mynd i fod o help mawr i rieni. Mae yna swyddogion sydd yn dod o

gwmpas ardaloedd i ail gychwyn cylchoedd meithrin ac felly mae'r Clerc am gysylltu hefo'r swyddogion yma i gael mwy o wybodaeth ar beth yw'r opsiynau ar gyfer ariannu hyn.

- **Toiledau Dynion Lôn Bridin –** Griffith Williams
  Mae dolen drws toiledau dynion Lôn Bridin wedi malu ers tua 7 i 8 wythnos bellach ac nid oes sôn eu bod yn mynd i gael eu trwsio felly mae'r Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gwyno amdanynt. Mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu arian tuag at y toiledau i'w cadw yn agored bob blwyddyn ac mae cŵyn wedi cael ei roi i fewn am hyn yn barod ac er eu bod wedi gyrru ymateb yn dweud eu bod yn delio gyda'r mater maent yn dal ar gau.
- **Twll ar Lôn Las –** Griffith Williams
  Mae twll wedi ymddangos yn y ffordd o flaen Llaen Bach Lôn Las Morfa Nefyn ac angen ei drwsio, mae'r Clerc am gysylltu hefo'r adran briffyrdd i roi cŵyn i mewn.
- **Cychod Gwenyn**
  Yn dilyn cyfarfod yn Amgueddfa Forwrol Llŷn y bore yma rhwng un o'r aelodau, y Clerc a cynrychiolydd o'r Amgueddfa i drafod lleoliad yr hysbysfwrdd cafwyd cais i gael gosod cychod gwenyn ar dir y Cyngor Tref sydd wrth ymyl yr Amgueddfa. Maent yn awyddus i gychwyn y prosiect yma gyda'r bwriad o werthu'r mêl yn yr Amgueddfa ond nid yw yn sicr os yw tir yr Amgueddfa yn addas ar gyfer cychod gwenyn gan fod yna ddipyn o dai o'i amgylch a llwybr cyhoeddus wrth ymyl a fyddai'n tarfu ar y gwenynod. Y Clerc i anfon ateb i'r Amgueddfa bod yr aelodau yn teimlo nad yw'r tir sydd gan y Cyngor Tref yn addas ar gyfer hyn gan fod plant yn chwarae yno drwy'r adeg ond cafwyd awgrym iddynt ofyn i'r Heliwr ynglŷn â'u rhoi yn yr ardd gymunedol neu gofyn i berchennog tir Moel Dywyrch ar Mynydd Nefyn gan y byddent ynghanol blodau gwyllt yn y fan honno. Hefyd awgrymwyd iddynt gysylltu hefo arbennigwr i gael cyngor ynglŷn â'r mater.
- **Blodau ar gyfer yr Eisteddfod**
  Mae'r Is-bwyllgor blodau wedi bod yn cyfarfod ac wedi bod yn hel syniadau. Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ac mae angen caniatad i roi arddanghosfa 'Croeso' wrth ymyl 'Bryncynnan' ac er mwyn rhoi cais i fewn mae'n rhaid cael mesuriadau a llun o'r arddanghosfa. Er mwyn cychwyn y broses mae angen gwybod beth sydd wedi cael ei roi ar y gyllideb fel arian tuag at hyn i gyd a cadarhaodd y Clerc bod £1,000.00 wedi ei roi yn ychwanegol, ar ben y £2,000.00 (sydd fel arfer yn cael ei roi tuag at y blodau) sydd yn gwneud cyfanswm o £3,000.00 y flwyddyn yma. Bydd modd symud ymlaen rwan i drefnu gwneud yr arddanghosfa 'Croeso' ac fe fydd ys Is-bwyllgor yn cyfarfod i drefnu hyn.

5. **Llygredd ar y traeth yn Morfa** – Diweddariad – Gareth Jones
   Gan fod aelod lleol Morfa Nefyn wedi ymddiheuro heno mae o wedi gyrru ebost hefo diweddariad i'r Clerc sef ei fod wedi cael ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud yn bendant nad oes llygredd yn Abergeirch a Morfa Nefyn ond y bydd yn manylu ar hyn yn y cyfarfod nesaf felly fe fydd y mater yma yn cael ei roi ar agenda mis nesaf.

6. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff –** Diweddariad – Arfon Hughes & Gwynfor Jones
   Mae'r ddau aelod wedi bod yn y Llyfrgell yn gweld beth sydd angen ei wneud yno ac yn pryderu am fater Iechyd a Diogelwch sef y ffordd y mae'r glanhawraig yn llenwi ac yn gwagio'r bwced hefo dŵr poeth. Mae yna sinc ar y wal o dan y peiriant dŵr poeth sydd yn rhy uchel o lawer i lenwi'r bwced hefo dŵr poeth ac felly awgrymwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd gan mai nhw sydd yn

cyflogi'r glanhawraig i weld os oes cyfraniad ariannol i'w gael ganddynt ar gyfer gwneud y newidiadau Iechyd a Diogelwch yma a'i roi ar agenda mis nesaf i weld beth fydd yr ymateb. Cafwyd cais hefyd i gael lle addas i newid babi yno gan fod 'Ti a Fi' yn cael ei gynnal yno yn wythnosol a dim lle ar gyfer newid cewyn babi, byddai modd gwneud lle i hyn yn y toiled hygyrch sydd yno felly penderfynwyd ei ychwanegu i'r rhestr waith.

7. **Dyfynbrisiau i greu cwpwrdd arddangos –** Clerc
Mae'r Clerc wedi derbyn un amcanbris ar gyfer y gwaith o greu cwpwrdd arddangos a penderfynwyd derbyn y pris a dweud wrth y Saer i ddechrau ar y gwaith cyn gynted a phosibl. Penderfynwyd hefyd i ofyn iddo roi llun i fyny ar wal Siop Siarad ac i roi plaen ar y drws sydd ar ben y girisiau sy'n mynd lawr i'r selar gan nad yw yn cau yn iawn.
Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Rhian Sanson

8. **Meinciau –** Cadeirydd
Gan fod y cadeirydd wedi ymddiheuro heno penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf.

9. **Canolfan Felin Fach –** Cadeirydd
Gan fod y cadeirydd wedi ymddiheuro heno cafwyd diweddariad gan aelod lleol Nefyn ar y mater yma. Ar ôl cysidro yr holl opsiynnau mae Canolfan Felin Fach wedi penderfynnu terfynnu les Siop Siarad gan nad oes digon o alw am yr hwb yn Nefyn felly maent am symud popeth o Siop Siarad cyn gynted a phosibl.

10. **Polisi Iaith Cynghorau Cymuned –** Gruffydd Williams
Cais yw hwn i CTN fabwysiadu Polisi Iaith mae Cyfeillion Llŷn wedi ei lunio er mwyn cynnig gwell gwarchodaeth cyfreithiol i'r modd y mae'r Cynghorau yn gweithredu drwy'r Gymraeg ac yn rhoi amddiffyniad cadarn i'r Polisi yn wyneb unrhyw her. Penderfynwyd ei gyflwyno mis nesaf yn y pwyllgor blynyddol hefo'r holl bolisiau eraill iddo gael ei fabwysiadu a'i basio.

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
Dim.

12. **Ceisiadau Cynllunio**
**C23/0254/42/DT –** 25 Llwyn Gwalch, Morfa Nefyn – Estyniad cefn unllawr ynghŷd âc estyniad i fodurdy.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad
**C23/0261/42/DT –** Penrhos, Lôn Penrhos, Morfa Nefyn – Estyniad unllawr cefn, modurdy newydd a phaneli solar.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.
**C23/0273/42/LL –** Cefn Maes, Nefyn – Cais llawn i dymchwel adeilad presennol ac adeiladu dau dŷ unllawr fforddiadwy.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.
**C23/0265/42/LL –** Tir Maes Twnti, Morfa Nefyn – Cais llawn i godi 3 tŷ teras ynghŷd â gwaith cysylltiol.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1157.41
- Local Councils Update – Tanysgrifiad - £110.00
- Alan Adams – Taliad 1 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1240.00
- Cyngor Gwynedd – Treth Llyfrgell Nefyn 2023-2024 - £1324.13
- Nefyn Foods Ltd – Rent Siop Siarad - £780.00
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Mawrth - £124.59
- H M Revenue & Customs – PAYE Mis 12 - £111.43

**Penderfyniad**: talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**14. Taliadau wedi eu derbyn**
Dim.